POLISÏAU ENGHREIFFTIOL YSGOLION GOGLEDD CYMRU

# Polisi Cwynion



Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council

Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Cyngor Gwynedd Council

Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Rheolaeth y Ddogfen

Trosolwg

| | |
|---|---|
| **POLISI** | Polisi Cwynion |
| **PERCHENNOG** | Grŵp AD Rhanbarthol Gogledd Cymru (Ysgolion) |
| **CYSWLLT ENWEBEDIG** | |
| **ADOLYGWYD GAN** | Grŵp AD Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>Cynrychiolwyr Undebau Llafur Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF** | 2025 |
| **DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF** | 2028 |
| **DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG** | Polisi Disgyblu Ysgolion<br>Polisi Urddas yn y Gwaith<br>Gweithdrefn Cwynion Ysgolion |

Ymgynghoriad

| Fersiwn | Pwy | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|---|
| F1 | Cymeradwywyd y fersiwn hwn gan Grŵp Cydweithio Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr AD o bob Awdurdod Lleol a Chynrychiolwyr Undebau Llafur Rhanbarthol pob un o'r Undebau Llafur cydnabyddedig | Ebrill 2018 |
| F2 | Cymeradwywyd y fersiwn hwn gan Grŵp Cydweithio Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr AD o bob Awdurdod Lleol a Chynrychiolwyr Undebau Llafur Rhanbarthol. | 27 Mehefin 2025 |

# Cynnwys

Rheolaeth y Ddogfen....2
1.0 Polisi a Gweithdrefn Cwynion ....4
1.1 Pwrpas ....4
2.1 Cwmpas....4

2.0 Egwyddorion y Polisi.... 4
3.0 Rolau a Chyfrifoldebau .... 5
3.1 Cyfrifoldebau Cadeirydd y Corff Llywodraethu:.... 5
3.2 Cyfrifoldebau'r Pennaeth / Rheolwr Dynodedig: .... 6
3.3 Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu:.... 6
3.4 Cyfrifoldebau gweithwyr:.... 6
4.0 Y Weithdrefn Anffurfiol:.... 7
5.0 Y Weithdrefn Ffurfiol:.... 8
5.1 Cam 1 - Gwneud Cwyn Ffurfiol.... 8
5.2 Cam 2 - Ymchwilio i Gŵyn.... 8
5.3 Cam 3 - Cyfarfod Cwynion Ffurfiol - Cam 1.... 9
5.4 Cam 4 - Apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad am gŵyn - Cam 2.... 9
6.0 Cwyn gan Bennaeth.... 10
7.0 Cwyn ar y Cyd.... 10
8.0 Cwynion gweithwyr am Gorff Llywodraethu Ysgol.... 11
9.0 Cwynion gan gyn-weithwyr yr ysgol.... 11
10.0 Cwynion Blinderus.... 11
11.0 Cwynion a Gweithdrefnau Eraill .... 12
12.0 Cyfryngu .... 13
13.0 Cofnodion .... 14
14.0 Monitro ac Adolygu.... 14

## Atodiadau

Atodiad 1 Datganiad Cwyn Ffurfiol
Atodiad 2 Hysbysiad Apêl Canlyniad Cwyn
Atodiad 3 Siart Llif Gweithdrefn Cwynion
Atodiad 4 Cyfryngu

# 1.0 Polisi a Gweithdrefn Cwynion

## 1.1 Pwrpas

Cwynion yw unrhyw bryderon, problemau neu anghydfod yn y gweithle y gall gweithwyr eu codi gyda'u cyflogwyr. Gallai unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliad, ar ryw adeg, fod â phroblemau neu bryderon cysylltiedig â'u gwaith neu eu perthnasoedd â chydweithwyr yr hoffent siarad â'u rheolwyr yn eu cylch.

Pwrpas y weithdrefn hon yw sicrhau y gellir datrys cwynion mewn ffordd deg, gyson a chyflym a hynny mor agos at wreiddyn yr achos â phosibl.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu:

- Trefniadau cyfreithlon, anwahaniaethol, teg ac effeithiol ar gyfer delio â phryderon a chwynion gweithwyr.
- Cyfrifoldebau gweithwyr wrth iddynt godi problemau a phryderon
- Cyfrifoldebau Penaethiaid dros ddatrys problemau mewn modd cyflym a chyson er mwyn cynnal perthnasoedd gwaith da.

## 1.2 Cwmpas

Mae'r weithdrefn yn briodol ar gyfer pob gweithiwr a gyflogir, neu y mae eu cyflogaeth yn cael ei reoli gan gorff llywodraethu, yn cynnwys y Pennaeth, gweithwyr parhaol, dros dro, llawn amser a rhan amser. Nid yw'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r rhai hynny a gyflogir yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol, staff asiantaeth na gweithwyr hunangyflogedig.

Dylid ymdrin â chwynion a wneir gan aelod o'r cyhoedd am weithiwr neu lywodraethwr o dan bolisi cwynion yr ysgol yn y lle cyntaf, fodd bynnag fe allai'r gŵyn wedyn arwain at gymryd camau pellach o dan y polisi ysgol perthnasol.

# 2.0 Egwyddorion y Polisi

2.1 Caiff unrhyw weithiwr wneud cwyn o dan y weithdrefn hon a bydd pob gweithiwr yn cael ei drin gyda pharch, yn deg ac mewn modd cyson. Bydd yr ysgol yn cymryd unrhyw gŵyn a wneir o ddifri ac mae unrhyw weithiwr sydd â chwynion dilys yn cael eu hannog i'w codi heb ofni unrhyw wrthgyhuddiad.

2.2 Ble bo hynny'n briodol, gwneir pob ymdrech i fynd i'r afael â phryderon y gweithiwr heb orfod troi at weithdrefnau ffurfiol.

2.3 Bydd yr holl faterion cysylltiedig â chwynion ac ymchwiliadau'n cael eu trin yn gyfrinachol gan bob parti perthnasol ar bob cam o'r broses.

2.4 Ble bo hynny'n angenrheidiol bydd cwyn yn cael ei hymchwilio gan unigolyn amhleidiol ac annibynnol nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â'r gŵyn.

2.5 Dylid trefnu pob cyfarfod ar bob cam o'r weithdrefn cyn gynted â phosibl ac o fewn yr amserlen a nodir yn y polisi.

2.6 Fel rhan o'r weithdrefn hon mae gan bob gweithiwr hawl i fod â chydweithiwr neu gynrychiolydd Undeb Llafur gyda nhw yn ystod cyfarfod ffurfiol. Rhoddir ystyriaeth, gyda chytundeb bob parti, i weithiwr gael ei gynrychioli gan Gynrychiolwyr Undeb Llafur ar gamau anffurfiol y weithdrefn.

2.7 Mae gan yr achwynydd hawl i apelio os ydynt yn dal i deimlo'n anfodlon ar ôl y cam cyntaf.

2.8 Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i'r gweithdrefn os bydd gan y gweithiwr nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

2.9 Efallai y bydd achlysuron pan nad yw'n uniongyrchol amlwg y dylid delio â mater o dan y polisi Cwynion hwn. Mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol atgyfeirio ac ymchwilio'r mater o dan bolisi gwahanol, er enghraifft:

- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Medrusrwydd
- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Polisi Disgyblu

Pe bae'r Pennaeth/Cadeirydd Llywodraethwyr yn penderfynu nad yw'r materion a godwyd yn disgyn o fewn cylch gwaith y weithdrefn cwynion yma, bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r unigolyn sy'n cyflwyno cwyn.

2.10 Bydd y Pennaeth yn ystyried yr holl gwynion a godir gan weithwyr, ar wahân i'r rhai hynny y mae'r Pennaeth wedi cael rhywfaint o gysylltiad â nhw'n barod neu sy'n ymwneud â'r Pennaeth, ac a fyddant felly'n cael eu hystyried gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu.

2.11 Dylid fel arfer codi cwyn o fewn tri mis:

- o adeg y digwyddiad y mae'r gweithiwr yn anfodlon yn ei gylch
- o'r dyddiad y cododd y gweithiwr y mater yn anffurfiol yn gyntaf a chael dim datrysiad boddhaol. Mae hyn â chymryd y cododd y gweithiwr y mater i ddechrau o fewn 3 mis o adeg y digwyddiad

Bydd cwynion hanesyddol yn cael eu hystyried os ydynt yn ymwneud â chwyn gyfredol sy'n cael sylw ac sy'n diwallu'r meini prawf uchod.

2.12 Os nad yw gweithiwr yn gallu mynychu cyfarfod cwynion, dylid ystyried aildrefnu'r cyfarfod a rhoi cefnogaeth i'r gweithiwr i'w helpu nhw i fynychu. Os yw'r gweithiwr yn rhy sâl (hyd yn oed gyda addasiadau rhesymol mewn lle) neu'n gwrthod mynychu dro ar ôl tro, efallai y bydd yr ysgol yn penderfynu bod angen iddynt symud y broses yn ei blaen heb fewnbwn y gweithiwr, mewn ffordd mor gyflawn a theg â phosibl.

## 3.0 Rolau a Chyfrifoldebau

## 3.1 Mae Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am:

- Sicrhau y cymerir unrhyw gwynion o ddifri a'u trin mewn dull teg, cyson a sensitif.
- Bod yn berchen ar y weithdrefn cwynion (os codir cwyn yn ymwneud â'r Pennaeth) gan sicrhau y caiff sylw o fewn yr amserlen a bennir yn y polisi hwn.
- Rhoi gwybod i'r Pennaeth os codwyd cwyn ffurfiol neu anffurfiol mewn perthynas â nhw neu benderfyniad a wnaethant
- Sicrhau y dilynir y weithdrefn cwynion yn gywir gan ofyn cyngor Cynrychiolydd AD Ysgolion yr Awdurdod Lleol yn ôl yr angen a sicrhau bod yr holl bartïon cysylltiedig â'r gŵyn wedi cael gweld yr holl wybodaeth am y gŵyn er mwyn gallu ymateb.
- Gofalu y caiff holl gofnodion unrhyw ymchwiliadau eu hanfon i Adran AD yr Awdurdod Lleol i'w rhoi yn y ffeiliau priodol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

## 3.2 Mae'r Pennaeth / Rheolwr Dynodedig yn gyfrifol am:

- Sicrhau amgylchedd gwaith lle mae pob gweithiwr yn ymwybodol o'r weithdrefn cwynion
- Sicrhau y caiff pob gweithiwr yn yr ysgol gefnogaeth a chymorth i ddatrys unrhyw broblemau sydd ganddynt mewn perthynas â'u cyflogaeth.
- Ceisio datrys unrhyw broblemau'n anffurfiol cyn iddynt ddatblygu'n gwynion ffurfiol.
- Cymryd pob cwyn o ddifri gan ddelio â phob un mewn dull teg, cyson a sensitif.
- Bod yn berchen ar, ac yn gyfrifol dros y broses cwynion ar ran pob gweithiwr a sicrhau bod y broses yn symud yn ei blaen o fewn yr amserlen a nodir yn y weithdrefn hon.
- Rhoi gwybod i'r gweithwyr dan sylw pan fydd cwyn ffurfiol neu anffurfiol wedi'i chodi mewn perthynas â nhw neu benderfyniad a wnaethant
- Penodi swyddog ymchwilio wedi'i hyfforddi'n briodol/profiadol

## 3.3 Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am:

- Fabwysiadu'r polisi a'r weithdrefn
- Unrhyw drefniadau cysylltiedig â chydlyniad a llywodraethiad y Pwyllgorau Llywodraethwyr sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol i'r polisi a'r weithdrefn yma.
- Gwrando apeliadau yn erbyn canlyniad cwyn.

## 3.4 Mae gweithwyr yn gyfrifol am:

- Geisio datrys materion yn anffurfiol cyn codi cwyn ffurfiol
- Ymgysylltu â'r Pennaeth/rheolwr dynodedig er mwyn gwneud pob ymdrech i ddatrys y gŵyn
- Cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad
- Mynychu pob cyfarfod sy'n rhan o'r broses o ymchwilio i'r gŵyn
- Cynnal cyfrinachedd.

## 4.0 Y Weithdrefn Anffurfiol

Os bydd cwyn a godir yn ymwneud â gweithiwr arall, bydd yr ysgol yn annog y gweithiwr sy'n gwneud y gŵyn i geisio datrysiad personol drwy siarad yn uniongyrchol â'r gweithiwr arall. Os nad yw hyn yn bosibl, neu os nad yw'r gŵyn yn ymwneud â gweithiwr arall, gallant drafod y mater gyda'r Pennaeth/rheolwr llinell i weld a oes modd datrys y mater yn anffurfiol heb orfod troi at y weithdrefn ffurfiol. Gall y Pennaeth/Rheolwr Llinell gadw cofnod o'r drafodaeth/camau gweithredu cytunedig a rhoddi'r copi i'r gweithiwr.

Gofynni'r i'r gweithiwr gan y Pennaeth/Rheolwr Llinell sut y gellir datrys y mater h.y. y canlyniad y mae'r gweithiwr yn ei ddymuno a sut y gellir gwireddu hyn.

Os gwneir cwyn ynghylch gweithiwr arall, efallai y bydd yn briodol i'r Pennaeth drafod yr hyn a wnaethant/na wnaethant gyda nhw fel rhan o'r trefniadau goruchwylio arferol a heb orfod troi at y weithdrefn ffurfiol. Lle bod pryderon yn cael eu derbyn, gall hyn fod ar ffurf cyngor, cwnsela, hyfforddiant, cyfarwyddyd neu strategaethau rheoli eraill priodol. Gellir hefyd dirprwyo'r cyfrifoldeb i aelod o'r tîm arweinyddiaeth. Mewn perthynas â'r Pennaeth, Cadeirydd y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am hyn gyda chefnogaeth eu cynrychiolydd AD.

Prif bwrpas y dull hwn o weithredu yw datrys unrhyw gwynion cyn gynted â phosibl ac mor agos â phosibl at wreiddyn y sefyllfa a arweiniodd at yr anfodlonrwydd.

Dylai penaethiaid/rheolwyr, llywodraethwyr a staff bob amser wneud pob ymdrech i ddatrys cwynion yn y gweithle, fodd bynnag os nad yw hyn yn bosibl dylent ystyried ceisio cymorth trydydd parti annibynnol i helpu i ddatrys y broblem. Gellir felly ystyried cyfryngu/cymodi er mwyn ceisio datrys y sefyllfa'n anffurfiol. Yn yr achos hwn dylai'r ysgol gysylltu â'u Cynrychiolydd AD Awdurdod Lleol am gyngor.

Mae cyfryngu yn broses wirfoddol lle bydd cyfryngwr yn ceisio cynorthwyo dau o bobl neu fwy sydd mewn anghydfod i geisio dod i gytundeb. Yr unigolion sy'n rhan o'r anghydfod sy'n gyfrifol am ddod i gytundeb ar y mater, nid y cyfryngwr. Nid yw'r cyfryngwr yno i farnu, i ddweud pwy sy'n iawn neu ddim nac i ddweud wrth y partïon cysylltiedig beth y dylen nhw ei wneud. Y cyfryngwr sy'n gyfrifol am y broses o geisio datrysiad i'r broblem.

Gweler rhan 12 ac Atodiad 14 am gwybodaeth ar cyfryngu/cymodi.

Mewn amgylchiadau lle bod pryderon yn cael eu gwadu/dadlau neu ni elli'r eu datrys gall fod angen i cynnal ymchwiliad ffurfiol.

# 5.0 Y Weithdrefn Ffurfiol

## 5.1 Cam 1 – Gwneud Cwyn Ffurfiol

Os nad oes modd datrys cwyn mewn modd sy'n bodloni'r gweithiwr ar y cam anffurfiol, neu os ystyrir fod y gŵyn yn ddigon difrifol i gyfiawnhau hynny, gall gweithiwr godi cwyn ffurfiol.

I godi cwyn ffurfiol mae'n rhaid i weithwyr lenwi ffurflen 'Hysbysiad o Gŵyn' (atodiad 1) a chyflwyno'r ffurflen ac unrhyw dystiolaeth/ddogfennaeth berthnasol i'r Pennaeth (neu yn uniongyrchol i Gadeirydd y Corff Llywodraethu os oes a wnelo'r Pennaeth â'r gŵyn neu os mai ef/hi yw'r achwynydd).

Dylai'r gŵyn ffurfiol gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Natur y gŵyn – beth yr honnir iddo fod wedi digwydd
- Y camau a gymerwyd i ddatrys y mater yn anffurfiol a'r rheswm dros yr anfodlonrwydd â'r ateb anffurfiol (os yn briodol)
- Y canlyniad y mae'r gweithiwr yn ei ddymuno a sut y gellir gwireddu hyn
- Unrhyw dystion i'r materion y mae'r cwynion yn ymwneud â nhw.

Dyle'r Pennaeth/Cadeirydd Llywodraethwyr cydnabod yn ysgrifenedig derbyn y gwyn.

## 5.2 Cam 2 – Ymchwilio i Gŵyn

Os yw'r Pennaeth/Cadeirydd y Corff Llywodraethu o'r farn fod y pryder yn disgyn o fewn cylch gorchwyl y weithdrefn cwynion dylid ystyried os yw ymchwiliad yn briodol neu yn ddibynnol ar natur y gwyn os gelli'r ymdrin â'r mater trwy gynnal cyfarfod gyda'r gweithiwr i drafod pryderon.

Os yw ymchwiliad yn briodol, yna dylid cynnal yr ymchwiliad cyn gynted â phosibl gan y Pennaeth neu ymchwilydd dynodedig wedi'i hyfforddi'n briodol/profiadol (e.e. aelod o'r tîm rheoli/pennaeth/llywodraethwr). Os yw maint yr ysgol neu nifer y gweithwyr yn golygu nad yw hyn yn ymarferol, dylid ceisio cyngor cynrychiolydd AD yr Awdurdod Lleol. Fe allai fod achosion pan fyddai'n addas penodi ymchwilydd allanol annibynnol, er enghraifft mewn achosion arbennig o ddyrys.

Y Swyddog Ymchwilio fydd yn gyfrifol am ymchwilio i'r gŵyn, gan gynnwys y digwyddiadau perthnasol i, neu a arweiniodd at wneud y gŵyn. Bydd yn angenrheidiol i'r Swyddog Ymchwilio gyfarfod â'r holl weithwyr perthnasol, gan gynnwys unrhyw rai a allent fod wedi bod yn dyst i, neu sydd â gwybodaeth allweddol am y mater.

Mae'n rhaid i unrhyw weithiwr sy'n destun cwyn gael manylion am y gŵyn o leiaf 5 diwrnod ysgol cyn y cyfarfod ymchwilio er mwyn iddynt allu ymateb yn briodol.

Bydd cofnod o bob cyfarfod a gynhelir gan y Swyddog Ymchwilio yn cael ei wneud a'i anfon at yr unigolyn er mwyn iddynt ei lofnodi fel cofnod cywir o'r cyfarfod

Dylai'r Swyddog Ymchwilio baratoi adroddiad yn nodi beth oedd casgliad eu hymchwiliad. Bydd yr adroddiad ar yr ymchwiliad yn cael ei ddefnyddio gan y Pennaeth /Cadeirydd y Corff Llywodraethu/ Pwyllgor Llywodraethwyr i bennu'r ffeithiau llawn a bydd yn hwyluso'r penderfyniad terfynol ynghylch y gŵyn.

## 5.3 Cam 3 – Cyfarfod Cwynion Ffurfiol – Cam 1

Dylid cynnal cyfarfod gerbron y Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr yn achos y Pennaeth) o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn y ffurflen hysbysiad o gŵyn. Os bydd y mater yn gofyn am ymchwiliad, yna dylai'r cyfarfod ddigwydd o fewn 25 diwrnod ysgol.

Dylai pob gweithiwr sy'n rhan o'r broses fynychu'r cyfarfod ac mae ganddynt hawl i ofyn i gydweithiwr neu Gynrychiolydd Undeb Llafur fynd i gyfarfodydd gyda nhw. Gall y cyfarfod fod gyda'r holl garfanau yn bresennol neu gyfarfodydd ar wahân, pryn bynnag fyddai fwyaf priodol ar gyfer yr achos. Gellir gofyn i'r ymchwilydd fynychu'r cyfarfod hwn i gyflwyno ei adroddiad (os yw hynny'n briodol).

Yn ystod cyfarfod am gŵyn, bydd y Pennaeth/Cadeirydd Corff Llywodraethu yn ystyried yr holl dystiolaeth, yr adroddiad ar yr ymchwiliad i'r gŵyn ac unrhyw gyngor perthnasol. Yn ddibynnol ar amgylchiadau, gall y cyfarfod hwn fod ar ffurf cyfarfod canlyniad yn unig. Bydd y canlyniad yn un o'r casgliadau isod:

- Bod cyfiawnhad dros y gŵyn yn ei chyfanrwydd neu dros ran ohoni, ac argymell pa gamau y dylid eu cymryd i'w datrys a pha argymhellion rheoli y dylid eu gwneud (os unrhyw rai).
- Nad oes cyfiawnhad dros y gŵyn. Efallai y bydd rhai gwersi i'w dysgu ac argymhellion i'w gwneud o ganlyniad i'r ymchwiliad.
- Bod y gŵyn a wnaed yn un flinderus - yn yr achos hwn gallai'r gweithiwr a wnaeth y gŵyn wynebu achos disgyblu.

Ble bynnag bosibl, bydd penderfyniad yn cael ei roi ar lafar i'r gweithiwr ar ddiwedd y cyfarfod trafod cwyn, gyda llythyr yn cadarnhau'r penderfyniad hwnnw yn dilyn o fewn 5 diwrnod ysgol o ddyddiad y cyfarfod. Mae gan y gweithiwr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad os ydynt yn dal i deimlo'n anfodlon.

## 5.4 Cam 4 – Apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad am gŵyn – Cam 2

Os yw'r gweithiwr yn dal yn teimlo na chafodd eu cwyn ei datrys yn foddhaol, mae ganddynt hawl i apelio i Glerc y Corff Llywodraethu o fewn 10 diwrnod ysgol o ddyddiad derbyn y llythyr yn eu hysbysu ynghylch canlyniad yr ymchwiliad.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr sicrhau eu bod wedi llenwi pob rhan o'r Ffurflen Apelio yn Erbyn Penderfyniad am Gŵyn (Atodiad 2) a'i bod yn dangos yn glir pam y maent yn credu nad oedd y penderfyniad yn gywir ac nad yw'r datrysiadau a argymhellwyd o ganlyniad i'r penderfyniad yn gywir.

O fewn 5 diwrnod ysgol fel arfer, bydd y Clerc sy'n derbyn y ffurflen apelio yn erbyn penderfyniad am gŵyn yn ysgrifennu at y gweithiwr yn cydnabod eu bod wedi ei derbyn ac yn cadarnhau y bydd cyfarfod apelio yn erbyn penderfyniad am gŵyn ffurfiol yn cael ei gynnull, gan eu hysbysu hefyd ynghylch eu hawl i fynd â chynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr gyda nhw i'r cyfarfod.

Ar ôl derbyn yr apêl ysgrifenedig yn erbyn y penderfyniad, bydd Cadeirydd y Corff Llywodraethu yn trefnu bod y Pwyllgor Apêl yn Erbyn Canlyniad Cwyn yn cyfarfod o fewn 15 diwrnod ysgol i wrando'r apêl ac yn trefnu i'r gweithiwr dderbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r trefniadau. Bydd y cyfarfod trafod apêl yn canolbwyntio ar y materion a nodwyd yn y ffurflen apelio.

Bydd y Pwyllgor Gwrando Apêl yn ethol Cadeirydd a bydd clerc yn gweithredu fel sy'n briodol. Dylid rhoi enwau'r Llywodraethwyr a fydd yn rhan o'r pwyllgor hwn ymlaen llaw i'r gweithiwr sy'n apelio yn erbyn penderfyniad am gŵyn. Ni ddylai cynrychiolwyr staff ar y Corff Llywodraethu eistedd ar y pwyllgor hwn ac ni ddylai'r llywodraethwyr fod wedi cael cysylltiad blaenorol â'r achos. Gellir gwahodd y Pennaeth neu'r Cadeirydd a glywodd y gŵyn yn wreiddiol i'r cyfarfod i gyflwyno eu hachos/ateb unrhyw gwestiynau am eu casgliadau.

Ar ôl ystyried yr holl ffeithiau a gyflwynwyd ac unrhyw dystiolaeth newydd, gall y Pwyllgor Gwrando Apêl yn Erbyn Penderfyniad am Gŵyn ddod i'r casgliad eu bod am

- gynnal penderfyniad gwreiddiol y Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr am y gŵyn.
- cynnal yr apêl yn rhannol
- cynnal yr apêl yn llawn

Yn yr amgylchiadau hyn byddai'n rhaid i'r panel ddod i benderfyniad/datrysiad newydd yng ngoleuni'r wybodaeth/casgliadau newydd.

Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol. Bydd gweithiwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig beth oedd penderfyniad y Panel Apêl o fewn 5 diwrnod ysgol o ddyddiad y cyfarfod apêl.

## 6.0 Cwyn gan Bennaeth

Os bydd Pennaeth yn gwneud cwyn, dylai Cadeirydd y Corff Llywodraethu geisio datrys y mater ar sail anffurfiol naill ai'n bersonol gyda chytundeb ac mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Addysg neu eu cynrychiolwyr ar yr Awdurdod Lleol. Os nad yw hyn yn llwyddo i ddatrys y mater, dylid ei gyfeirio at Bwyllgor Staffio'r Llywodraethwyr. Bydd modd wedyn ymdrin â'r mater gan ddilyn y weithdrefn gwynion arferol. Bydd gan y Pennaeth hawl i fynd â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gyda nhw i gyfarfodydd.

Os bydd Pennaeth yn gwneud cwyn gysylltiedig â Chadeirydd y Corff Llywodraethu, dylai'r Corff Llywodraethu ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros drefnu ymchwiliad i'r Is-gadeirydd o dan reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mewn achosion o'r fath, yr Is-gadeirydd fydd yn cyflawni rôl y Cadeirydd gan ddilyn y broses a amlinellir uchod. Os credir na all yr Is-gadeirydd fod yn amhleidiol o ganlyniad i gysylltiad blaenorol, bydd yn rhaid i'r Corff Llywodraethu enwebu llywodraethwyr eraill a rhaid gwneud cofnod o'r penderfyniad hwnnw.

## 7.0 Cwyn ar y Cyd

Cwyn ar y cyd yw cwyn a gyflwynir gan nifer o weithwyr yn lleisio'r un pryder neu'n cwyno ynglŷn â'r un mater sydd wedi effeithio arnynt i gyd o fewn yr un ysgol. Yn yr achosion hyn, bydd yn ofynnol enwi pob gweithiwr sy'n rhan o'r gŵyn ar y cyd a chael eu caniatâd ysgrifenedig i'w cynrychiolydd siarad a gweithredu ar eu rhan. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth ar y ffurflen cwynion pan gyflwynir y gŵyn ar y cyd cyn y gellir trefnu unrhyw gyfarfod. Dylai'r gŵyn hefyd gadarnhau enw

cynrychiolydd enwebedig y grŵp sy'n gwneud y gŵyn (ac os yn briodol aelod enwebedig o'r grŵp sy'n gwneud y gŵyn).

Mae cwynion ar y cyd yn dilyn gweithdrefn debyg i gwynion unigol sef:

Cam 1 - ceisio datrysiad anffurfiol

Cam 2 – cwyn ffurfiol yn cael ei chyflwyno, ei hymchwilio iddi a phenderfyniad yn cael ei wneud

Cam 3 - apêl yn cael ei gyflwyno, ei ystyried a phenderfyniad terfynol yn cael ei wneud.

Bydd cyd-gwynion ffurfiol yn cael eu gwrando gan Gadeirydd Llywodraethwyr ysgol y gweithwyr sy'n gwneud y gŵyn (oni bai bod y gŵyn ymwneud â'r Cadeirydd).

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud gyda chynrychiolydd enwebedig y grŵp sy'n cwyno (ac os yn briodol aelod o'r grŵp hwnnw) yn unol â'r broses a amlinellir yn adrannau 4.0 a 5.0. Bydd canlyniadau'r broses yn cael eu hanfon yn ysgrifenedig at bob achwynydd yn ddi-oed.

## 8.0 Cwynion gweithiwr am Gorff Llywodraethu Ysgol

Mae'n bosibl y gallai gweithiwr unigol neu grŵp o weithwyr wneud cwyn yn erbyn llywodraethwr unigol neu bwyllgor y Corff Llywodraethu. Mewn achosion o'r fath byddai'r gŵyn yn cael sylw gan ddilyn gweithdrefn gwynion y Pwyllgor Llywodraethu

## 9.0 Cwynion gan gyn-weithwyr ysgolion

Nid oes rheidrwydd ar ysgol i ymchwilio i gŵyn a gyflwynir gan gyn-weithiwr os caiff ei chyflwyno ar ôl eu diwrnod olaf o wasanaeth.

Os bydd unigolyn yn gadael cyflogaeth yr ysgol ac yn penderfynu wedyn eu bod yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol am eu cyflogaeth, dylid rhoi cadarnhad ysgrifenedig o hyn i'r Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr a'i ystyried drwy gyfrwng gweithdrefn cwynion yr ysgol.

## 10.0 Cwynion Blinderus

Diffinnir cwyn flinderus fel a ganlyn:

- Yr ymchwiliad wedi dangos nad oedd sail dros y gŵyn wreiddiol ac y gwnaed y gŵyn yn flinderus neu fel modd o beri rhwystredigaeth i broses arall.
- Yr ymchwiliad yn gallu profi fod yr achwynydd wedi dweud celwydd yn fwriadol wrth gyflwyno eu cwyn i'r swyddog ymchwilio.

Os mai casgliad yr ymchwiliad i'r gŵyn/y broses apêl yw bod y gŵyn yn un flinderus, gallai arwain at roi gweithdrefn disgyblu'r ysgol ar waith yn erbyn yr unigolyn a wnaeth y gŵyn, a/neu benderfyniad i beidio ag ymateb ymhellach i gwynion ailadroddus a godir gan y gweithiwr os ystyrir eu bod yn gwynion blinderus.

Dylai'r Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr egluro yn ysgrifenedig pam eu bod o'r farn fod y gŵyn yn un flinderus, gan gyfeirio at y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliad hwnnw, a chadarnhau y bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl at yr ysgol i'w ystyried o dan y Polisi a'r Weithdrefn Disgyblu.

Bydd unrhyw achos disgyblu'n cael ei oedi hyd nes y daw'r weithdrefn apelio i ben. Os yw'r apêl yn aflwyddiannus, ni chynhelir gwrandawiad arall cysylltiedig â'r un gŵyn.

Gellir defnyddio gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r ymchwiliad i'r gŵyn fel rhan o'r ymchwiliad/gweithdrefn ddisgyblu

Mae gwneud cwyn ffug, flinderus neu faleisus o dan y weithdrefn hon yn fater disgyblu difrifol a allai arwain at ddiswyddiad am gamymddygiad difrifol.

## 11.0 Cwynion a Gweithdrefnau Eraill

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â phroses neu weithdrefn benodol sy'n agored i ymgynghoriad â, neu apêl gan weithiwyr, yna ni fydd yn cael sylw o dan y weithdrefn cwynion. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

11.1 Cwynion ynglŷn â'r defnydd o'r weithdrefn neu brosesau eraill (e.e. disgyblu, medrusrwydd, diswyddiad ayyb) tra bo'r weithdrefn honno ar y gweill. Bydd cwynion a wneir gan weithwyr sy'n destun achos disgyblu fel arfer yn fwy addas i'w delio â nhw fel rhan o'r gwrandawiad disgyblu neu'r gwrandawiad apêl.

Mae eithriadau i hyn yn cynnwys achosion ble gellid oedi gwrandawiad disgyblu hyd nes y bydd cwyn wedi ei hymchwilio iddi, er enghraifft achosion lle bydd gan weithiwr amheuon rhesymol ynglŷn â gonestrwydd a didueddrwydd yr unigolyn/unigolion sy'n penderfynu ar y camau disgyblu neu fod cam gweithredu o bosibl yn gwahaniaethu o safbwynt y nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

11.2 Apêl yn erbyn cosbau disgyblu ffurfiol gan fod y rhain yn dod o dan y polisi a'r weithdrefn disgyblu.

11.3 Apêl yn erbyn terfynu cyflogaeth ar sail presenoldeb, medrusrwydd, achos disgyblu neu ddiswyddiad gorfodol.

11.4 Cwyn ynglŷn â, neu apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad parthed cyflog neu raddfa. Bydd hawl penodol i apelio o fewn y polisïau perthnasol yn cael ei weithredu o dan yr amgylchiadau hyn.

11.5 Cwyn ynglŷn â, neu apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad parthed budd-dal pensiwn. Mae Gweithdrefnau ar wahân yn bodoli ar gyfer materion pensiwn.

11.6 Cwynion am fater lle mae proses berthnasol eisoes yn bodoli ar gyfer Cynrychiolwyr Undeb.

11.7 Cwynion am faterion yn ymwneud â'r broses ymgynghori statudol.

11.8 Cwynion am faterion y dylid delio â nhw o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd/ Polisi Chwythu'r Chwiban yr Ysgol/Polisi a Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith.

11.9 Cwynion ynglŷn â materion sydd eisoes wedi cael sylw, fwy neu lai, o ganlyniad i gŵyn neu weithdrefn flaenorol.

Os oes gan weithiwr bryderon am ymddygiad gweithiwr arall, mae Polisi a Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith yr Ysgol yn egluro'r ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr ac yn nodi ffynonellau o gefnogaeth.

Mae gweithdrefn ar wahân yn cefnogi'r Polisi Urddas yn y Gwaith felly bydd cwynion o'r natur hwn yn cael eu trin drwy'r polisi a'r weithdrefn yma.

## 12.0 Cyfryngu

Mae cyfryngu'n cyfeirio at broses lle mae trydydd parti niwtral a gwrthrychol yn helpu'r carfanau i gyfathrebu â'i gilydd ac i ddod i gytundeb. Mae cymodi yn cyfeirio at y broses o hwyluso adfer cysylltiadau gwaith cadarnhaol pan mae penderfyniad wedi'i wneud, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, i wneud hynny.

Gall cyfryngu chwarae rhan hollbwysig mewn cwynion ynghylch bwlio ac aflonyddu drwy ddarparu llwybr cyfrinachol ar gyfer dull anffurfiol, a chyfle, o bosibl, i ddatrys y gŵyn heb greu'r angen am weithredu pellach neu weithredu ffurfiol. Gall cyfryngu ddatrys y mater neu helpu i gefnogi'r unigolyn a gyhuddwyd yn ogystal â'r achwynydd.

Mae cyfryngu'n fwyaf tebygol o lwyddo os yw'r ddwy garfan yn deall beth y mae cyfryngu'n ei olygu, ac yn cymryd rhan yn y broses o'u gwirfodd, gan fwriadu ceisio atgyweirio'r berthynas waith.

Bydd y broses gyfryngu'n rhoi cyfle i'r achwynydd egluro i'r aflonyddwr honedig pa effaith y mae eu hymddygiad yn ei chael arnynt, a chaiff yr aflonyddwr honedig gyfle i ymateb. O safbwynt yr achwynydd, bydd hyn yn golygu rhoi diwedd ar yr ymddygiad sy'n peri gofid iddynt.

Mae'n rhaid i'r ddwy garfan gytuno i gymryd rhan yn y broses gyfryngu. Os nad yw unrhyw un o'r carfanau'n cytuno i gymryd rhan yn y broses gyfryngu, ni ellir ei defnyddio i ddatrys y problemau.

Dylai'r broses gyfryngu gael ei threfnu gan y Pennaeth. Mewn achosion lle mae'r Pennaeth yn destun cŵyn, dylai'r broses gyfryngu gael ei threfnu gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a/neu gynrychiolydd AD.

Pa bynnag ddull a ddefnyddir, dylai'r gweithiwr gofnodi'r cam a gymerir a'r canlyniad fel tystiolaeth o ymgais i ddatrys y sefyllfa.

Os yw'r carfanau'n methu â datrys y mater drwy gyfryngu, a bod yr achwynydd yn parhau i fod yn anhapus, yna gellir cyfeirio'r mater at y weithdrefn ffurfiol. Gellir gael rhagor o wybodaeth am y broses gyfryngu gan yr adran AD. Bydd y cynrychiolydd AD yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth ynghylch sut i weithredu'r weithdrefn anffurfiol.

Gweler Atodiad 4 am ragor o wybodaeth am gyfryngu.

## 13.0 Cofnodion

Bydd cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw drwy gydol camau ffurfiol ac anffurfiol y weithdrefn yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth a diogelu data.

## 14.0 Monitro ac Adolygu

Bydd y polisi'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â newidiadau eraill mewn deddfwriaeth gyflogaeth neu arfer gorau argymelledig.

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Ffurflen Hysbysu Ynghylch Cwyn |
| Atodiad 2 | Ffurflen hysbysu ynghylch Penderfyniad Apêl am Gŵyn |
| Atodiad 3 | Siart Llif y Weithdrefn Gwynion |

Atodiad 1

# Datganiad Cwyn Ffurfiol



Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan unrhyw weithiwr yn yr ysgol sy'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol am ei reolwr/rheolwr, ymddygiad cydweithiwr neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r gweithle.

Cyn defnyddio'r ffurflen hon, dylai gweithwyr wybod mai ar gyfer amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd cwynion ffurfiol yn cael eu derbyn heb gymryd camau i ddatrys y broblem yn anffurfiol yn y lle cyntaf.

Pan fo'r gweithiwr yn gofyn am ymdrin â'r gŵyn yn anffurfi ol, bydd y Pennaeth yn trafod y mater gyda'r gweithiwr gan geisio ei ddatrys heb droi at y Polisi Cwyn ffurfiol.

Pan fo'r gweithiwr yn gofyn am ymdrin â'r gŵyn yn ffurfiol, dylid cwblhau'r ffurfl en hon a bydd y weithdrefn gwyno ffurfiol yn cael ei rhoi ar waith.

Dylid bob amser lenwi'r ffurflen hon a'i rhoi i aelod perthnasol o staff (Pennaeth/Rheolwr Penodedig neu Gadeirydd y Llywodraethwyr) mewn amlen sydd â'r gair "Cyfrinachol" arni neu ei hanfon fel atodiad e-bost gyda "Cyfrinachol" fel testun.

| | |
|---|---|
| Enw'r gweithiwr: | |
| Teitl swydd y gweithiwr: | |
| Ysgol y gweithiwr: | |
| Dyddiad: | |
| Ynglŷn â phwy/beth mae'r gŵyn yn ymwneud a? | |

**Crynodeb o'r gŵyn:**

Nodwch fanylion eich cwyn (gan fod mor fanwl â phosib', yn enwedig â dyddiadau, amser, lleoliadau a'r rhai a oedd ynghlwm). Atodwch ddalennau ychwanegol os bydd angen.

## Unigolion a oedd ynghlwm â'r digwyddiad/gŵyn honedig

Nodwch enwau a manylion cyswllt unrhyw rai a oedd ynghlwm â'ch cwyn, gan gynnwys llygaddystion, os gwelwch yn dda.

## Camau anffurfi ol a gymerwyd eisoes

Nodwch fanylion y camau a gymerwyd i ddatrys y mater yn anffurfi ol a'r rheswm pam eich bod yn anfodlon â'r canlyniad anffurfi ol (os yw'n briodol).

## Canlyniad y dymunir ei gael

Nodwch beth rydych yn ceisio ei gael fel canlyniad i'ch cwyn a sut a pham rydych yn credu y byddai hyn yn datrys y mater.

Datganiad - Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau uchod yn wir hyd y gwn ac y credwn i. Rwy'n deall y gallai gwneud datganiadau ffug, maleisus neu anwir gael ei ystyried gan yr ysgol fel camymddwyn difrifol ac, os ystyrir bod y gwyn yn un faleisus, bydd ymchwiliad i'r mater o dan y Polisi Disgyblu.

| | |
|---|---|
| Ffurfl en wedi'i chwblhau gan: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |
| I'w gwblhau gan yr ysgol | |
| Dyddiad derbyn y ffurfl en: | |
| Dyddiad cydnabod: | |
| Enw'r sawl a'i derbyniodd a'u rôl: | |
| Llofnod: | |

Atodiad 2

# Hysbysiad Apêl Canlyniad Cwyn



Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council | Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council | Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council | Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council | Gwynedd | Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'n rhaid i weithwyr unigol neu grwpiau o weithwyr ac/neu eu cynrychiolwyr gweithwyr ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed o ganlyniad i Gyfarfod Cwyn Cyflogaeth.

Dylid bob amser llenwi'r ffurflen hon a'i rhoi i aelod perthnasol o staff (Pennaeth/Rheolwr Penodedig neu Gadeirydd y Llywodraethwyr) mewn amlen a nodwyd "Cyfrinachol" neu ei hanfon fel atodiad e-bost gyda "Cyfrinachol" fel testun.

| | |
|---|---|
| Enw'r gweithiwr: | |
| Teitl swydd y gweithiwr: | |
| Ysgol y gweithiwr: | |
| Dyddiad Cyflwyno'r Apêl: | |


## Rhesymau dros anfodlonrwydd gyda chanlyniad y gwyn:

Nodwch y rheswm/(rhesymau) pam eich bod yn anfodlon gyda chanlyniad y Cyfarfod Cwyn.

## Canlyniad y dymunir ei gael

Nodwch beth ydych yn geisio ei gael fel canlyniad i apêl eich cwyn a sut a pham rydych yn credu y byddai hyn yn datrys y mater.

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd y ffurflen gan: | |
| Llofnod: | |
| I'w Llenwi gan yr Ysgol | |
| Dyddiad Derbyn y Ffurflen: | |
| Dyddiad Cydnabod y Ffurflen: | |
| Enw'r Derbynnydd a Swydd: | |
| Llofnod: | |


Gweithdrefn anffurfiol
Gweithiwr yn codi cwyn gyda'r unigolyn priodol
Os yw'r gwyn yn erbyn y rheolwr, rhaid codi'r mater gyda rheolwr uwch neu gadeirydd y llywodraethwyr
Trafodaeth anffurfiol i gael ei chynnal
Mater wedi'i ddatrys
Gweithred wedi'i nodi a'i gymryd
Mater heb ei ddatrys – gall y gweithiwr symud at broses gwyno ffurfiol
Gweithdrefn Cwyn Ffurfiol
Gweithiwr yn llenwi'r ffurflen cwyn
Ystyried a oes angen dynodi unigolyn i ymchwilio
Ydi'r mater yn briodol i gael ei drin drwy'r weithdrefn gwyno?
Nac ydi
Penderfynu ar y weithdrefn gywir i'w ddilyn
Ydi
Cynnal cyfarfod cwyn
Caiff y gwyn ei chynnal
Nac ydi
Ydi
Gweithiwr yn derbyn y penderfyniad
Gweithiwr yn derbyn y penderfyniad
Ydi
Daw'r gwyn i ben
Nac Ydi
Nid yw'r gweithiwr yn derbyn y penderfyniad a gall apelio
Nac Ydi
Ydi
Gweithred wedi ei gymryd a daw'r gwyn i ben
Gweithdrefn Apêl Ffurfiol
Gweithiwr yn cyflwyno sail dros apelio
Cyfarfod apêl yn cael ei gynnal gan Banel Apeliadau'r Llywodraethwyr
Apêl wedi'i chadarnhau
Apêl heb ei chynnal

# Atodiad 4 – Cyfryngu

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i annog perthnasoedd gwaith cytûn rhwng cydweithwyr. Mae cyfryngu yn broses amrywiol y gellir ei defnyddio nid yn unig fel dewis amgen i'r gweithdrefnau ffurfiol, ond hefyd fel ymyrraeth gyntaf gyflym i atal anghydfod rhag gwaethygu, neu hyd yn oed i adfer perthynas waith wedi i'r gweithdrefnau ffurfiol ddod i ben.

## Amcanion cyfryngu

- Rhoi fframwaith wrthrychol a diduedd i unigolion ar gyfer datrys gwrthdaro yn gynnar;
- Cynnig dewis gwahanol i weithdrefnau ffurfiol fel dulliau o ddatrys gwrthdaro.
- Gall cyfryngu ddigwydd ar unrhyw gam o'r broses.

## Beth yw cyfryngu?

Proses anffurfiol yw cyfryngu sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau ffurfiol ac anffurfiol yr ysgol ar gyfer ymdrin â materion yn y gweithle.

- Caiff ei defnyddio i helpu i wella neu adfer perthnasoedd gwaith rhwng unigolion.
- Mae'n wirfoddol ac yn gwbl gyfrinachol.
- Bydd cyfryngwr (trydydd unigolyn niwtral, sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac sy'n brofiadol), yn gweithio gyda'r carfanau i'w helpu i ganfod eu datrysiadau eu hunain a dod i gytundeb gyda'r bwriad o ddatrys anghytundeb neu wella'r sefyllfa. Bydd pob cyfryngwr wedi cael ei hyfforddi'n briodol.
- Mae wedi ei seilio ar egwyddorion datrys problemau ar y cyd, gyda ffocws ar y dyfodol ac ail-greu perthnasoedd, yn hytrach na nodi bai.
- Mae'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan i gamu yn ôl ac edrych ar sut y gellir datrys y sefyllfa, gan edrych ar eu gweithredoedd eu hunain yn ogystal â rhai'r garfan arall.

Cynhelir cyfryngu ar y sail fod ar y ddwy garfan eisiau cael canlyniad a datrysiad sy'n dderbyniol gan bawb. Dylai cyfryngu llwyddiannus arwain at ddwy garfan sy'n teimlo bod y canlyniad yn deg, yn rhesymol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Y weithdrefn gyfryngu

| |
|---|
| Cam 1 –  Y cyswllt cyntaf gyda'r rhai sy'n cymryd rhan (cyfarfodydd unigol) |
| Cam 2 – Cyflwyno'r cefndir (cyfarfod ar y cyd) |
| Cam 3 – Archwilio'r materion |
| Cam 4 – Creu'r cytundeb |
| Cam 5 - Diwedd |
| Ar ôl cyfryngu - Gwerthuso |

Mae'r broses gyfryngu fel a ganlyn.

## Cam 1 – Y cyswllt cyntaf gyda'r rhai sy'n cymryd rhan (cyfarfodydd unigol)

Bydd y cyfryngwr yn cwrdd â'r ddwy garfan yn unigol er mwyn:

- Egluro swyddogaeth y cyfryngwr a'r broses gyfryngu, yn cynnwys cyfrinachedd.
- Pwysleisio mai dim ond os oes yna faterion o natur droseddol yn dod i'r amlwg y bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri, ac ar y pwynt hwnnw byddai'r cyfarfod yn cael ei atal ac Adnoddau Dynol yn cael eu hysbysu. Mae'n bosibl y bydd angen i awdurdod priodol, e.e. yr heddlu, ymyrryd.
- Diffinio'r materion craidd a nodi'r canlyniad delfrydol a ddisgwylir gan y ddwy garfan. Fe allai fod angen i'r cyfryngwr gwrdd ag un neu'r ddwy garfan eto er mwyn cael eglurder ynghylch unrhyw faterion pellach sy'n codi o gam un.
- Bydd y cyfryngwr yn amlinellu camau dilynol y broses gan nodi lleoliad ac amser priodol ar gyfer y cyfarfod ar y cyd.

## Cam 2 – Cyfarfod ar y cyd – Cyflwyno'r cefndir

Bydd y cyfryngwr yn:

- Cytuno ar y rhaglen
- Gosod y ffiniau a'r rheolau sylfaenol mewn cytundeb â'r ddwy garfan
- Egluro a chytuno ar y broses
- Rhoi eglurder a chrynhoi y meysydd gwrthdaro y cytunwyd arnynt

## Cam 3 – Archwilio'r materion

Bydd y cyfryngwr yn:

- Archwilio'r materion gyda'r carfanau
- Annog cyfathrebu
- Rheoli unrhyw wrthdaro yn ystod camau cynnar y drafodaeth
- Annog cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'r broblem
- Gwirio dealltwriaeth a rhoi eglurder ar dybiaethau
- Nodi unrhyw bryderon am y materion
- Annog newid ffocws o'r gorffennol i'r dyfodol
- Crynhoi meysydd o gonsensws ac anghytundeb

## Cam 4 – Creu'r cytundeb

Bydd cyfryngu yn gweithio tuag at:

- Greu a gwerthuso opsiynau
- Annog datrys problemau
- Derbyn neu gydnabod arwyddion o gymodi

- Annog y ddwy garfan i symud o sefyllfa lle nad ydynt yn agored i drafodaeth, gan ganolbwyntio ar ddatrysiad yn y dyfodol yn hytrach na'r broblem yn y gorffennol
- Llunio cytundebau a chreu trefniadau wrth gefn
- Nodi'r camau nesaf os nad ydynt yn dod i unrhyw gytundeb

## Cam 5 - Diwedd

- Caiff y sesiwn hon ei diweddu pan fo'r cyfryngwr yn penderfynu y byddai'n briodol neu os bydd unrhyw garfan yn dymuno tynnu'n ôl.
- Bydd y cyfryngwr yn cytuno cynllun gweithredu gyda naill garfan.
- Dod â'r sesiwn i ben, gan ailddatgan yr angen am gyfrinachedd.
- Trefnu camau dilynol (os yw'n angenrheidiol). Pan fo rhai materion yn parhau heb eu datrys, fe all y cyfryngwr awgrymu bod sesiwn arall yn cael ei threfnu. Fe all y carfanau hefyd benderfynu cynnal cyfarfodydd dilynol (hyd yn oed os daethpwyd i gytundeb llawn), naill ai gyda'r cyfryngwr neu hebddynt. Ar y cam hwn, bydd y cyfryngwr yn dod â'r cyfarfod i ben a bydd yn ail gadarnhau cyfrinachedd y broses. Os nad oes cytundeb ynglŷn â'r materion, bydd y cyfryngwr yn ceisio cael y carfanau i gytuno beth yw'r materion a sut y byddant yn symud ymlaen yn y dyfodol.
- Os yn addas, bydd y cyfryngwr yn paratoi ar gyfer y rheolwr gofynnwyd am y cyfryngu, trosolwg llafar ynghyd a chopi o'r cynllun gweithredu cytunedig efallai y bydd angen monitro.
- Bydd cyfrinachedd yn cael ei barchu.

## Ar ôl cyfryngu - gwerthuso

- Bydd y cyfryngwyr yn darparu datganiad i'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol at ddibenion monitro a gwerthuso. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chofnodi fel rhan o'r broses hon.
- Nid oes unrhyw broses apêl yn gysylltiedig â chyfryngu, ond nid yw cymryd rhan mewn proses gyfryngu yn eithrio unigolion rhag defnyddio dulliau gweithredu eraill. Mae gan unigolion hefyd yr opsiwn o gofrestru eu pryderon am y broses, neu gyfryngwr penodol, gyda chynrychiolydd Adnoddau Dynol.